Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG54274**

# Ymateb Llywodraeth Cymru i Ymchwil Gwersi a Ddysgwyd ar Astudiaeth Beilot SATC: Crynodeb o'r prif ganfyddiadau, Awst 2025 – wedi'i ddrafftio gan Sustenic.

Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN ddigiol 978-1-83745-273-6

**Cyd-destun**

Cafodd Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 ei rhoi ar waith ym mis Ebrill 2024, ac mae'n gosod targedau datgarboneiddio heriol i'w cyflawni gan bob landlord cymdeithasol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu landlordiaid i gyflawni'r targedau a nodir yn y safon.

Mae Rhan 3 o SATC yn cynnwys targedau datgarboneiddio ac mae Atodiad 3 o'r canllawiau cysylltiedig yn amlinellu llwybr i gyflawni'r targedau hyn. Cynhaliwyd astudiaeth beilot a oedd yn cynnwys wyth landlord o bob rhan o ogledd, de a chanolbarth Cymru rhwng mis Medi 2023 a mis Tachwedd 2024 i brofi eglurder a sylwedd y canllawiau. Gweithiodd yr wyth landlord, gan gynnwys Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gydag ymgynghorwyr allanol Sustenic i ddatblygu eu dull o wella cynhesrwydd fforddiadwy a sicrhau datgarboneiddio fel y nodir yn Rhan 3 o'r Safon.

Ar ôl cwblhau'r astudiaeth beilot, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru dendr ar Sell2Wales i chwilio am ymgynghorydd i asesu'r gwersi a ddysgwyd o'r ymarfer hwn. Dyfarnwyd y contract i Sustenic ac mae'r Crynodeb Gweithredol o'u canfyddiadau wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.

Mae'r adroddiad cryno yn cyflwyno canlyniadau'r astudiaeth beilot a'r prif ganfyddiadau wedi'u nodi gan landlordiaid a gymerodd ran. Mae hefyd yn tynnu sylw at rai problem critigol lle mae angen cymorth gan Lywodraeth Cymru ac yn awgrymu ffordd ymlaen.

Mae cyfres o argymhellion wedi cael eu hystyried gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae rhai argymhellion wedi cael eu derbyn yn llawn, ac mae eraill naill ai wedi cael eu derbyn yn rhannol neu eu gwrthod.

Yn fyr, roedd y meysydd o bryder a godwyd gan yr adroddiad yn gysylltiedig â'r canlynol:

- Bod â'r data cywir – ei gasglu, ei wella a'i gynnal
- Bod â digon o bobl fedrus o fewn Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd â'r arbenigedd i ymgymryd â'r gwaith
- Bod â'r feddalwedd a'r systemau rheoli cywir – sy'n caniatáu casglu data priodol ac adrodd i Lywodraeth Cymru
- Deall y targedau – yn enwedig y berthynas rhwng SAP75 a SAP92
- Gwybod bod cyllid hirdymor ar gael – dywedodd landlordiaid cymdeithasol fod angen sicrwydd o ran cyllid i gyflawni'r targedau

- Deall gofynion adrodd Llywodraeth Cymru – y gallu i adrodd yn effeithlon i Lywodraeth Cymru oherwydd y newid yn y gofynion adrodd

'Meysydd critigol'

Nododd yr Ymchwil Gwersi a Ddysgwyd bum maes critigol lle mae angen cymorth gan Lywodraeth Cymru. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr her i landlordiaid wrth gyflawni'r safon, mae'n credu bod dull y safon yn ddigon hyblyg i ganiatáu goresgyn yr heriau hyn. Isod mae ymatebion Llywodraeth Cymru i bob maes critigol a nodwyd yn yr adroddiad.

1. ***Y Bwlch Ariannu*** **–** *'Realiti'r Bwlch Ariannu: Mae'r astudiaeth beilot wedi dangos costau cyfartalog fesul annedd o £25,000 – £30,000 i gyflawni'r targedau, gan greu angen blynyddol am gyllid sy'n sylweddol uwch na'r lefelau presennol Mae angen eglurder ar landlordiaid ar sut bydd yr wybodaeth hon yn llywio strategaethau ariannu yn y dyfodol.'*

    a. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod gan landlordiaid fwlch ariannu rhwng y lefelau cyllid presennol a chyfanswm y cyllid amcangyfrifedig sydd ei angen i gyrraedd y targedau ar gyfer pob cartref.

    b. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data ar y cyllid sydd ei angen i ddatblygu opsiynau i Weinidogion mewn perthynas â chynlluniau ariannu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, yng nghyd-destun yr angen ehangach i ddatgarboneiddio pob tai yng Nghymru ac i leihau lefelau tlodi tanwydd i aelwydydd ym mhob math o deiliadaeth .

    c. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir, er y bydd cyllid gan y llywodraeth yn chwarae rhan, nid oes modd ariannu'r gwaith hwn heb gyllid o ffynonellau eraill. Byddwn yn cefnogi'r sector i archwilio ffynonellau cyllid eraill, gan gynnwys cynigion buddsoddi gan y sector preifat.

    d. Dylai landlordiaid (i) barhau i wella eu data am stoc i roi ragor o sicrwydd ynghylch cyfanswm cost bodloni'r safon a (ii) yn y tymor byr, ddatblygu prosiectau hyfyw i elwa ar gyllid wrth iddo ddod ar gael e.e. drwy gyllid atodol y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) yn ystod y flwyddyn.

2. ***Dichonoldeb Cyflawni Targed –*** *'Dichonoldeb Cyflawni Targed: Dim ond 28–45% o anheddau a allai gyflawni SAP92 yn yr astudiaethau peilot a gafodd eu cwblhau. Mae hyn yn awgrymu cyfyngiadau technegol sylweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw drwy bolisi neu lwybrau cydymffurfio amgen.'*

    a. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y ffigurau a ddyfynnir yn yr adroddiad. Mae'r safon yn hirdymor ac nid oes dyddiad cau penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni SAP92 / EIR92. Fodd bynnag, pwrpas y safon yw adolygu argaeledd ac effeithiolrwydd technolegau dros amser o bryd i'w gilydd, ac i gynllunio i gyflawni'r lefel fwyaf posibl o effeithlonrwydd ynni ym mhob cartref cymdeithasol.

    b. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol rhoi Llwybrau Ynni Targed ar waith a'u hadolygu a'u diweddaru gydag amser wrth i dechnoleg a chyllid ganiatáu symud tuag at y targedau.

3. **Cyfyngiadau Sgiliau ac Adnoddau –** '*Cyfyngiadau Sgiliau ac Adnoddau: Mae prinder cenedlaethol o aseswyr, cydlynwyr a dadansoddwyr data ym maes ôl-osod, ac mae hyn yn tanseilio capasiti cyflenwi. Mae angen datblygu gweithlu strategol ochr yn ochr ag arweiniad technegol.'*

    a. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod hyn yn her sylweddol i landlordiaid ac yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i gynyddu nifer y gweithwyr medrus.

    b. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu cyflwyniadau landlordiaid o Gymru i'r ORP i ddeall yn well y cyflenwad a datblygu sgiliau. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor gyda swyddogion Llywodraeth Cymru o Bolisi Datgarboneiddio Preswyl a Pholisi Sgiliau, Cymwysterau Cymru, MEDR (y comisiwn ar gyfer Addysg ac Ymchwil Drydyddol) a'r pedair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol i gefnogi'r adolygiad o gyllid hyfforddi'r sector diwydiant yng Nghymru.

    c. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhyw 40 o Gyrff Cynghori'r Diwydiant sydd hefyd yn goruchwylio'r mesurau cynnal a chadw, atgyweirio a gwella sy'n cael eu cynnal.

d. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad allanol o'r gweithlu sydd ei angen i gyflawni prosiectau ôl-osod nawr ac yn y dyfodol.

4. **Tensiwn rhwng cynllunio tymor byr a chynllunio tymor hir –** '*Cynllunio Tymor Bir yn erbyn Tymor Hir: Mae cyllid ORP cyfredol yn ysgogi meddwl tymor byr, gan dynnu adnoddau o gynllunio strategol. Mae angen dull mwy integredig o ariannu a chydymffurfio.*'

   a. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r rhwystredigaeth sy'n ymwneud â setliadau cyllido un flwyddyn, a'r alwad am ymrwymiad tymor hwy i alluogi cynllunio gwell a rhaglenni cyflawni mwy strategol.

   b. Er ein bod yn cydnabod y byddai cylchoedd ariannu hirach yn atgyfnerthu dull mwy integredig, dylid nodi bod cyllidebau Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar setliadau gan Lywodraeth y DU ac yn amodol ar ymarferion blaenoriaethu drwy brosesau cyllidebol Llywodraeth Cymru. Hefyd rhaid pasio cyllidebau gyda chefnogaeth mwyafrif y Senedd.

   c. Wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer ariannu datgarboneiddio preswyl, gan gynnwys ystyried disodli'r ORP, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor ar ddyluniad y cynllun lefel uchel gan gynnwys opsiynau sy'n rhychwantu sawl blwyddyn ariannol. Mater i'r llywodraeth nesaf fydd penderfynu ynghylch cynlluniau ariannu posibl yn y dyfodol.

   d. Yn y cyfamser, mae'r ORP yn hyrwyddo ac yn cefnogi meddwl strategol hirdymor drwy ei phroses sicrwydd a'i chyngor, sy'n cwmpasu elfennau fel ystyried cyllid amgen, sgiliau, y gadwyn gyflenwi, modelu stoc a gwaith canlyniadol.

5. **Canllawiau Gweithredu Ymarferol –** '*Canllawiau Gweithredu Ymarferol: Mae angen canllawiau fesul cam a thempledi manylach ar landlordiaid, yn benodol ar gyfer Asesiadau Ansawdd Data, Cynlluniau Gwella Ansawdd Data a throsglwyddo o Lwybrau Ynni Targed cychwynnol i rai terfynol.'*

    a. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai rhai canllawiau ychwanegol yn ddefnyddiol, yn enwedig mewn perthynas â'r broses o ddatblygu Llwybrau Ynni Targed. Fodd bynnag, nid yw'n credu bod angen canllawiau fesul cam. Gall canllawiau fesul cam a thempledi gyfyngu a rhwystro arferion unigol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhannu arferion da drwy gyhoeddi enghreifftiau ac astudiaethau achos gan landlordiaid.

    b. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal digwyddiadau Cymuned Ymarfer drwy gydol y flwyddyn, ac mae'n agored i ddefnyddio'r rhain i arddangos dulliau landlordiaid o ddatblygu Llwybrau Ynni Targed a rhaglenni gwaith strategol ar draws eu stoc dai.

    c. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda landlordiaid i fynd i'r afael â phroblemau o ran ansawdd data, gan fod hwn yn faes sy'n peri pryder.

**Argymhellion o'r Adroddiad ac ymatebion Llywodraeth Cymru**

Yn ogystal â'r pum mater critigol uchod, mae'r adroddiad hefyd yn nodi 11 argymhelliad.  Rhestrir ymatebion Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hyn isod. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr argymhellion hyn a bydd naill ai'n derbyn yr argymhelliad yn llawn neu'n rhannol neu'n gwrthod yr argymhelliad.

| Argymhelliad: | Derbyn yn llawn/ derbyn yn rhannol/ gwrthod | Y rheswm dros yr ymateb |
|---|---|---|
| Gwella'r canllawiau drwy'r argymhellion penodol a amlinellir yn yr adroddiad hwn, gan ganolbwyntio'n arbennig ar dempledi, canllawiau fesul cam ac egluro cysyniadau allweddol – yn benodol Llwybrau Ynni Targed ac ystyried ailgyflwyno'r cysyniad o Lwybrau Ynni Targed dros dro. | Derbyn yn rhannol | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gellid atgyfnerthu'r canllawiau a'u gwneud yn gliriach i helpu pobl i ddeall yn well.  Bydd y rhain yn cael ei gyhoeddi yn Haf 2026 yn amodol ar gytundeb gan y Llywodraeth newydd.<br><br>Nid yw Llywodraeth Cymru yn teimlo bod angen canllawiau fesul cam nac ailgyflwyno Llwybrau Ynni Targed dros dro. Byddwn yn sicrhau bod y canllawiau yn nodi'n glir y gellir adolygu a diwygio Llwybrau Ynni Targed dros amser wrth i dechnolegau a'u cost newid. |
| Datblygu offerynnau gweithredu ymarferol gan gynnwys templedi ar gyfer Asesiadau Ansawdd Data a Chynlluniau Gwella Ansawdd Data, fformatau adrodd a fframweithiau dilyniannu ar gyfer Llwybrau Ynni Targed. | Derbyn yn rhannol | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen cymorth pellach mewn perthynas ag ansawdd data, sy'n debygol o fod ar ffurf gweithdai a thrafodaethau a chanllawiau ychwanegol i ategu'r bennod Casglu Data yn y safon, a fydd yn cael ei chyhoeddi yn haf 2026 yn amodol ar gytundeb gan y Llywodraeth newydd.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi adolygu'r Polisïau Cydymffurfiaeth blaenorol gan lunio Adroddiad Monitro Cydymffurfiaeth, ac mae bellach templed ar gyfer hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen templedi ar gyfer Asesiadau Ansawdd Data na Chynlluniau Gwella Ansawdd Data. Tynnir sylw landlordiaid at y ddolen [The Government Data Quality Framework – GOV.UK] yn y safon sy'n darparu gwybodaeth yn y maes hwn |
| Buddsoddi mewn hyfforddiant a mentrau rhannu a chadw gwybodaeth, i adeiladu capasiti dadansoddi. | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda darparwyr hyfforddiant i gynyddu capasiti'r gweithlu sydd ar gael.<br><br>Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu argaeledd ac effeithiolrwydd mentrau rhannu gwybodaeth ac yn gweithio gyda'r sector ar opsiynau ar gyfer cymorth yn y dyfodol. |
| Datblygu astudiaethau achos o'r arferion gorau i ddangos dulliau effeithiol i fynd i'r afael â heriau allweddol. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod astudiaethau achos yn ddefnyddiol a bydd yn cyhoeddi astudiaethau achos ar ffurf cyflwyniadau gan Lywodraeth Cymru / weithdai ar gyfer Landlordiaid ochr yn ochr â'r canllawiau yn y safon. |
| Creu platfform rhannu gwybodaeth lle y gall landlordiaid rannu'r arferion gorau, astudiaethau achos a gwersi a ddysgwyd a'i gilydd. | Derbyn | Mae eisoes nifer o blatfformau ar gyfer rhannu'r arferion gorau, gan gynnwys Hwb Carbon Sero https://zerocarbonhwb.cymru/. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Hwb, ochr yn ochr â mentrau rhannu gwybodaeth eraill, ac yn gweithio gyda'r sector ar opsiynau ar gyfer cymorth yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| Ymgysylltu â darparwyr meddalwedd i wella'r gallu i integreiddio a datblygu offerynnau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i gefnogi cydymffurfio â SATC. | Derbyn yn rhannol | Landlordiaid sy'n dewis eu meddalwedd eu hunain ac mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn ofalus i sicrhau bod y farchnad yn parhau i fod yn hyblyg ac yn agored i arloesi.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnal cyfarfodydd blynyddol gyda chyflenwyr meddalwedd Rheoli Asedau Allweddol i drafod cymorth i gydymffurfio â SATC. Gwahoddir Cartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. |
| Egluro'r disgwyliadau o ran adroddiadau cychwynnol ar gyfer Gwanwyn 2025, gan gydnabod bod landlordiaid ar lefelau gwahanol o ran bod yn barod. | Derbyn | Roedd Llywodraeth Cymru yn glir ein bod yn deall bod landlordiaid ar lefelau gwahanol o ran bod yn barod cyn casglu data ym mis Mai 2025 i gynrychioli'r stoc ar 31 Mawrth 2025. Fodd bynnag, gwnaethom ofyn i landlordiaid ddarparu set mor gynhwysfawr o ddata ag y gallent, ac y byddem yn cymryd amser i adolygu a gwirio ansawdd y data ar ôl iddo gael eu cyflwyno.<br><br>Mae'r ymarfer casglu data cyntaf hwn wedi dangos maint yr her ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r sector yn ei gyfanrwydd, a chyda landlordiaid unigol, i gynyddu dealltwriaeth a gwella cysondeb adroddiadau. Bydd y gwaith hwn yn parhau. |
| Hwyluso adroddiadau testun SATC (yn hytrach na thaenlenni) drwy dempledi a hyfforddiant safonol ychwanegol. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r Polisïau Cydymffurfio ac wedi cyflwyno Adroddiad Monitro Cydymffurfiaeth i ganiatáu darparu gwybodaeth gyd-destunol. Mae templed wedi cael ei anfon at bob landlord. Yn ogystal, gall landlordiaid nawr ddarparu naratif i gyd-fynd â'u hystadegau casglu data. |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygu modelau ariannu gan ystyried angen sylweddol am fuddsoddi a nodwyd yn yr astudiaeth beilot. | Derbyn yn rhannol | Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r ymdrech sydd ei hangen i gyflawni datgarboneiddio ar draws pob deiliadaeth a'r adnoddau sylweddol cysylltiedig sydd eu hangen, gan gynnwys cyllid.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir, er bod gan gyllid y llywodraeth rôl i'w chwarae, y dylai'r sector archwilio amrediad o ffynonellau cyllid amgen i bontio'r bwlch. |
| Egluro'r targedau a sut maent yn ymwneud â'i gilydd, yn enwedig y berthynas rhwng gofynion SAP75 a SAP92. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cod asesu newydd i ganiatáu rhagor o hyblygrwydd rhwng SAP75 a SAP92. Mae landlordiaid wedi cael eu hysbysu am y cod hwn drwy weithdy ac mewn dogfen Newidiadau ar Unwaith a anfonwyd ym mis Hydref. |
| Ystyried dull gweithredu graddol sy'n cydnabod yr heriau sylweddol a nodwyd wrth sicrhau cydymffurfiaeth lawn. | Gwrthod | Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod hyblygrwydd eisoes yn bodoli o fewn y safon.<br><br>Mae'r dull a nodir yn SATC Rhan 3 yn caniatáu i landlordiaid alinio eu rhaglenni cyfalaf â'r safon yn strategol. Gellir defnyddio'r codau adrodd yn erbyn Rhan 3 i gofnodi hyn. Gall landlordiaid gynllunio ar gyfer gweithredu fesul cam sy'n cyd-fynd â'u tai a'r cyllid sydd ar gael ganddynt. |

## Camau i'w Cymrydd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Manylion cyswll

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-Adran Ansawdd Tai
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: HousingQualityStandards@gov.wales